# Cyngor Cymuned Tudweiliog

Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun 14eg Chwefror 2022

Presennol: Alan Hughes, Gareth Jones, John Davies, Alyn Williams, Terry Huws, Henry Huws, Chris Brady, Sian Parry

Ymddiheuriadau: Humphrey Williams

1. Cadeiriwyd gan Alan Hughes (ar teams) ac estynnodd groeso i bawb.
2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Sedd Wag -** Dangosodd Sioned Pearson Dinas ddiddordeb mewn bod yn Gynghorydd Cymuned, penderfynwyd cynnig y sedd iddi.
   b. **Y Gronfa Datblygu Cynaladwy** – Bydd y Clerc yn cyflwyno'r ffurflen gais gyda'r tri phrosiect, ond yn ychwanegol trafodwyd y byddai'n dda o beth gwneud cais am ddau hysbysfwrdd/bwrdd gwybodaeth, un i'w osod ar waelod Garn Fadryn ochr Dinas ar ail ym mhentref Tudweiliog.
   c. **Gor yrry ar lon y ysgol Tudweiliog** – Ni chafwyd unrhyw ymateb o'r adran Traffig ynglŷn a'r pryder sydd wedi ei gyflwyno iddynt, bydd y Clerc ar Cadeirydd yn cysylltu â'r swyddog eto.
   ch. **HSBC** – Yn dilyn y gost misol sy'n cael ei godi a'r bob cyfrif banc o hyn allan, edrychodd y Clerc i mewn i'r posibilrwydd o ymuno'r pedwar cyfrif fel mai ond un taliad misol fyddai yn cael ei dalu. Bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn trefnu apwyntiad hefo'r banc ym Mhwllheli i wneud hyn. Wrth edrych i mewn i bwrpas y pedwar cyfrif, daeth yn amlwg fod un oherwydd perchnogaeth y Cyngor Cymuned o ddarn o dir yn Garn Fadryn, bydd y Clerc yn ymchwilio mwy i'r mater.
   d. **Glyndwr, Tudweiliog** – Derbyniodd y Clerc ffurflen gan yr Adran

Gorfodaeth i nodi rhesymau a gwybodaeth am y pryder fod gwaith heb ganiatad yn mynd ymlaen ar y safle, bydd y Clerc yn llenwi'r ffurflen.

4. Gohebiaeth:

a. **Cais Eisteddfod –** Derbynwyd llythyr gan Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol 2023 yn ceisio cyfraniad arianol – bydd hwn yn cael ei drafod mis nesaf pan fydd rhannu'r praesept.

b. **Ardal Ni 2035 –** Anfonodd Alys Lloyd Jones grynodeb o'r adborth a dderbyniwyd gan grwpiau lleol a cymunedol yn ardal Llyn. E-bostiodd y Clerc gopi o'r adroddiad i'r Cynghorwyr.

c. **Ymgynghoriadau ar ail dai a chymunedau Cymraeg –** Gofynnodd Cyngor Tref Nefyn i Gyngor Cymuned Tudweiliog lenwi'r 3 ymgynghoriad au hafnon at Lywodraeth Cymru er mwyn codi gymaint o ymwybyddiaeth a phosib, bydd y Clerc yn eu llenwi ar ran y Cyngor, a bydd cyfle i'r Cynghorwyr eu llenwi yn unigol os yn dymuno.

ch. Cais Cynllunio C21/0411/46/LL Tyddyn Du, Dinas – Gwrthwynebu

d. Cais Cynllunio C22/0073/46/RG Tir ger Gorwl, Llangwnnadl – Dim Sylwadau

dd. Cais Cynllunio CC22/0085/46/DT Cae'r Ffynnon, Llaniestyn – Gwrthwynebu

e. Cais Cynllunio C22/097/46/LL Hirdre Ganol, Edern – Dim Gwrthwynebiad

f. Cais CynllunioC21/1218/46/RG Cynlas, Dinas – Datganodd y Cadeirydd ddiddordeb gan fod yr ymgeisydd yn deulu, ac aeth allan o'r ystafell tra bu trafodaeth ar y cais – Dim Sylw

ff. Cais Cynllunio C21/0734/46/LL Tyddyn Isaf Tudweiliog – Cefnogi' ond yn ymwybodol fod y safle o fewn AHNE ac orherwydd Cwestiynu os ydi'r cais yn cyd fynd ar polisi?

g. Cais Cynllunio C22/0105/46/DT Tan y Ffordd Garnfadryn – Dim Gwrthwynebiad

**5. Unrhyw fater arall:**

a. Twll yn y lon ger y ganolfan yn Llaniestyn, ar yr allt ger mynedfa cefn y ganolfan – bydd y Clerc yn cysylltu ar adran Priffyrdd.

b. Mae dwr yn croni ger Tyn Simdde a Nant Bach, bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Priffyrdd.

c. Penderfynwyd y byddwn yn cyfarfod wyneb yn wyneb mis nesaf ar ol bron dwy flynedd. Bydd y Clerc yn cadarnhau lleoliad yn nes i ddyddiad y cyfarfod mis nesaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 14eg Mawrth 2022 am 7.30yh